

28 Mawrth 2018

Nid yw eribulin (Halaven) ar gael ar y GIG fel arfer ar gyfer trin canser y fron sy'n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig (eilaid) mewn oedolion sydd ond wedi cael 1 driniaeth cemotherapi.

Os ydych ond wedi cael 1 driniaeth cemotherapi, dylai eich meddyg siarad â chi am yr opsiynau triniaeth eraill. Os ydych eisoes yn cymryd eribulin, dylech allu parhau i'w gymryd nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

Gwybodaeth a chymorth

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy am [ganser y fron ymhlith merched](#) a [dynion](#).

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Breast Cancer Now](#), 0333 207 0300
- [Gofal Canser y Fron](#), 0808 800 6000
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 0000
- [Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU](#) (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp [Gwarchod Iechyd](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2915-3